Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Safonau Marchnata) (Diwygio Deddfwriaeth Uniongyrchol yr UE) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **15 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Safonau Marchnata) (Diwygio Deddfwriaeth Uniongyrchol yr UE) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019")**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys

- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (UE) 1333/2001 yn pennu safonau marchnata ar gyfer bananas, rheolau ar wirio y broses o gydymffurfio â'r safonau marchnata hynny a gofynion ar gyfer hysbysiadau yn y sector banana.

- Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol ac ynghylch labelu cynhyrchion eidion a chig eidion a diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 820/97

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1825/2000 dyddiedig 25 Awst 2000 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion

- Rheoliad y Comisiwn (EC) 566/2008 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) 1234/2007 ar gyfer marchnata cig anifeiliaid buchol 12 mis neu ieuengach.

- Rheoliad Gweithredu y Comisiwn (EU) 2017/1184 sy'n pennu rheolau ar gyfer defnyddio Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu cig eidion, moch a charcasau defaid ac ynghylch cofnodi prisiau'r farchnad a chategorïau penodol carcasau ac anifeiliaid byw.

- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 543/2011 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran y ffrwythau a'r llysiau a'r sectorau ffrwythau a llysiau wedi'u prosesu

- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1850/2008 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer ardystio hopys a chynnyrch hopys

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1295/2008 ar fewnforio hopys o drydydd gwledydd

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 445/2007 sy'n pennu rheolau manwl penodol ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2991/94 sy'n pennu safonau ar gyfer brasterau taenadwy a Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1898/87 ar ddiogelu dynodiadau a ddefnyddir wrth farchnata llaeth a chynnyrch llaeth.

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2004/2002 sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar y cig a'r braster sydd mewn cynnyrch penodol cig o foch.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae'r Trefniadau Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli'n bennaf.

Mae'r offeryn yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru yn ddilyffethair.

Mae'r offeryn hefyd yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol eu harfer mewn perthynas â Chymru gyda chysyniad Gweinidogion Cymru, ac mewn un achos drwy ymgynghori. Mae swyddogaeth wedi ei rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol lunio rheoliad sengl yn ddilyffethair.

Mae'r swyddogaethau sydd wedi eu trosglwyddo fel mai dim ond yr Ysgrifennydd Gwladol all eu hymarfer neu gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru yn cynnwys swyddogaethau Gweinidog y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn, gallai hynny olygu y bydd gofyn ymgynghori â Llywodraeth y DU.

**Diben y diwygiadau**
Y Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd (CMO) yw'r fframwaith ar gyfer mesurau'r farchnad a ddarperir ar eu cyfer o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP), gan ddarparu'r fframwaith ar gyfer cynlluniau i gynnal y farchnad a sefydlwyd yn yr amrywiol sectorau amaethyddol. Cafodd y Trefniadau Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd eu sefydlu fel dull o fodloni amcanion y Polisi Amaethyddol Cyffredin ac yn benodol i sefydlogi marchnadoedd, sicrhau safon byw teg i gynhyrchwyr amaethyddol a chynyddu gweithgarwch amaethyddol.

Mae dros amser wedi ehangu i gynnig pecyn sy'n galluogi'r UE i:
- reoli gwaith anwadal;
- cymell cydweithio a chystadleuaeth rhwng cynhyrchwyr amaethyddol; a
- hwyluso masnach.

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol yr UE sy'n llunio rhan o gyfraith y DU sy'n gysylltiedig â'r Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd.

Mae'r Rheoliadau hyn ar gyfer 2019 yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n uniongyrchol berthnasol o ran safonau marchnata bwyd. Bydd Rheoliadau 2019 yn sicrhau bod modd gweithredu safonau marchnata yn y sector bwyd wedi i'r DU ymadael â'r UE. Y nod yw cynnal yr holl safonau marchnata presennol sy'n berthnasol i farchnad y DU ar Ddiwrnod 1.

Wedi Ymadael â'r UE a heb ddiwygio, byddai'r ddeddfwriaeth uchod o'r UE a ddargedwir yn cynnwys darpariaethau na ellir eu gweithredu a fyddai'n atal cynlluniau i gefnogi'r farchnad o fewn y sector amaethyddol rhag cael eu cynnal.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma https://beta.parliament.uk/work-packages/sj6gfDBw

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE.